Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/HL/0369/12

Yr Athro Laura McAllister
Cadeirydd
Chwaraeon Cymru
Gerddi Sophia
Caerdydd
CF11 9SW

2 Chwefror 2012

Annwyl Laura

LLYTHYR CYLCH GWAITH CHWARAEON CYMRU 2012-13

Rwy'n ysgrifennu atoch i amlinellu Cylch Gwaith 2012-13 sy'n pennu'r blaenoriaethau polisi allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod ac sy'n darparu dyraniad cyllid at ddibenion cyflawni'r blaenoriaethau hynny.

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'i nod o sicrhau bod diwylliant a chwaraeon yn ffynnu yng Nghymru a bod cyfleoedd i bobl Cymru fyw bywydau egnïol ac iach.

Fel y gwyddoch, mae'n nod personol gennyf waredu tlodi plant a chreu cyfleoedd bywyd ar gyfer pobl ifanc ar draws Cymru, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Gwn eich bod wrthi'n datblygu Strategaeth Tlodi Plant a fydd yn cyd-fynd â'ch Strategaeth Chwaraeon Cymunedol newydd. Bydd y ddwy strategaeth hyn yn creu cyfleoedd i chwaraeon gael effaith bositif ar fywydau plant a phobl ifanc. Yn ystod fy nghyfnod byr fel y Gweinidog Tai, Adfywio a Chwaraeon, rwyf wedi gweld drosof fy hun sut y gall chwaraeon newid bywydau pobl ifanc drwy helpu i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau arwain. Maent hefyd yn creu cyfleoedd iddynt fyw bywydau egnïol a chyflawni eu potensial. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y bydd y pwyslais cynyddol yn eich 'Gweledigaeth' ar gydraddoldeb, mynediad a chynnwys y gymuned yn cyfrannu at ein nodau cyffredinol a'n hymrwymiadau tuag at blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn ogystal â'ch dyletswydd i amlinellu eich blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant, hoffwn eich annog i barhau i gydweithio â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Hoffwn weld Chwaraeon Cymru yn parhau i ymwneud â'n Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu o fewn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Hoffwn weld manylion ynghylch y gwaith a wneir o fewn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.huw.lewis@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac yn arbennig y gwaith â'r ardaloedd clwstwr newydd dan faner Cymunedau yn Gyntaf, yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau chwarterol ac adroddiadau blynyddol. Trwy gryfhau'r cysylltiadau hyn hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle i gyfuno adnoddau wrth gyflawni gwasanaethau a fydd yn cyfrannu at leihau'r bylchau sy'n bodoli rhwng teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog o ran iechyd, addysg a sgiliau, a chanlyniadau economaidd.

BLAENORIAETHAU STRATEGOL

Cyfrifoldebau cyffredinol Chwaraeon Cymru yn 2012-13 fydd hwyluso a chefnogi, yn ariannol neu fel arall, weithgareddau sy'n cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac sy'n cyflawni llwyddiannau ar lwyfan chwaraeon y byd. Wrth wneud hynny, dylai Chwaraeon Cymru ddilyn *'Rhaglen Lywodraethu'* Llywodraeth Cymru, '*Dringo'n Uwch*' a'r Cynllun Gweithredu Gweithgarwch Corfforol: "*Creu Cymru Egnïol*", a'i '*Weledigaeth'* a strategaethau ar gyfer Gwirfoddoli, Chwaraeon Elît a Chwaraeon Cymunedol.

Trwy ei gytundebau ariannu gyda'i bartneriaid cyflenwi allweddol - awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a'r sectorau preifat a gwirfoddol, dylai Chwaraeon Cymru flaenoriaethu ei gyllid ac annog dull strategol, cydgysylltiedig ac effeithlon o sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian o'r buddsoddiad cyhoeddus mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bobl abl ac anabl, i sicrhau eu bod yn elwa ar yr hyn a wnawn.

BLAENORIAETHAU AR GYFER CHWARAEON CYMRU YN 2012-13

Blaenoriaethau sy'n parhau:

- Cynghori a chefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt bennu a chyflawni cynlluniau y mae gweledigaeth yn perthyn iddynt a chyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt mewn ***Cynlluniau Creu Cymru Egnïol*** lleol, a hynny drwy **Gytundebau Partneriaeth ag Awdurdodau Lleol**.

- Hwyluso a chefnogi rhaglenni a gweithgareddau er mwyn **cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan** mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws pob grŵp oedran, gan gynnwys oedolion a grwpiau targed sy'n flaenoriaeth, drwy strategaeth fuddsoddi yn seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar fuddsoddiad.

- Gweithredu'r Strategaeth **Chwaraeon Elît** er mwyn cyflawni llwyddiannau i Gymru ar y lefelau uchaf mewn chwaraeon rhyngwladol. Rwy'n edrych ymlaen at weld canlyniadau dull gweithredu Chwaraeon Cymru sy'n targedu grwpiau penodol ac at weld y llwyddiant ar y lefel uchaf yn ein chwaraeon sy'n cael blaenoriaeth yn parhau.

- Gweithio'n arloesol ac annog arloesed ymysg partneriaid a rhanddeiliaid allweddol er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd a **chodi incwm a denu buddsoddiad** oddi wrth gyrff eraill cyhoeddus a chyrff nad ydynt yn gyhoeddus.

- Cydweithio â Llywodraeth Cymru ac â rhanddeiliaid allweddol er mwyn cyflawni **rhwydwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o gyfleusterau** ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol sy'n effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy.

- Buddsoddi mewn **gweithlu** medrus ac uchel eu parch sy'n helpu i gyflawni ein canlyniadau eang eu cwmpas ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

- Cydweithio'n agos ag Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru ac â UK Sport er mwyn annog cyrff llywodraethu Cymreig priodol i ddatblygu cynlluniau hirdymor ar gyfer cynnal **digwyddiadau mawr** sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Chwaraeon Elît.

- Alinio a defnyddio eich adnoddau gyda'r lefel uchaf bosibl o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac atebolrwydd, a sicrhau bod dangosyddion priodol a chadarn ar waith i **reoli perfformiad** eich partneriaid cyflenwi yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt.

- Cynorthwyo a chefnogi'r Gangen Polisi Chwaraeon i ddarparu **cyngor a gwybodaeth arbenigol, gywir ac amserol** i Weinidogion Cymru ac uwch swyddogion.

- Cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i **gynllunio cyfathrebu ar y cyd** er mwyn hyrwyddo'r blaenoriaethau strategol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

Blaenoriaethau newydd:

- Datblygu a gweithredu **Strategaeth Gymunedol** a fydd yn canolbwyntio'n ddigonol ac yn briodol ar:

    - wella'r modd y cyflawnir llythrennedd corfforol a dysgu corfforol pobl ifanc;
    - atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng ysgolion a chymunedau;
    - ategu Strategaeth Tlodi Plant Chwaraeon Cymru drwy ddefnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol i adfywio unigolion a chymunedau a sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i'r rhai sydd fwyaf eu hangen;

- O fewn cyd-destun y Strategaeth Chwaraeon Elît, ystyried sut y gallai rhaglenni, gweithgareddau a chynlluniau allgyrsiol a rhai yn ymwneud â'r cwricwlwm (fel Addysg Gorfforol, Mwy Galluog a Thalentog, Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, Chwarae i Ddysgu, Campau'r Ddraig etc.) gael eu datblygu er mwyn datblygu'r **system(au) doniau** yng Nghymru.

- Cydweithio â swyddogion y Gangen Polisi Chwaraeon, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn gweithredu **Compact Simpson**.

- Cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i estyn y fenter **Nofio am Ddim** i gyn-filwyr a gweithwyr y lluoedd arfog sydd i ffwrdd o'u gwaith.

- Datblygu a mireinio eich **gwaith cynllunio corfforaethol a busnes** drwy ymgynghori â swyddogion y Gangen Polisi Chwaraeon.

- Cefnogi'r gwaith o sicrhau llwyddiant **Gemau Cymru** yn 2012, gan godi eu proffil a sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar berfformiad o fewn y chwaraeon sy'n rhan ohonynt.

- Cefnogi datblygiad **polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth** drwy gydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad yn y Rhaglen Lywodraethu yn cael eu hadlewyrchu'n llwyr yn eich cynlluniau corfforaethol a'ch cynlluniau busnes; ac wrth ddatblygu eich rhaglen ymchwil a gwerthuso.

CYLLID CYMORTH GRANT

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid Cymorth Grant gwerth £25.130m i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2012-13. Caiff y gyllideb ei hamlinellu'n fanwl isod.

Dyraniad y Gyllideb Cymorth Grant

	Cynlluniau 2012-13 (£000)	**Cynlluniau Dangosol 2013-14 (£000)**	**Cynlluniau Dangosol 2014-15 (£000)**
Refeniw	**24,006**	**23,743**	**23,789**
Costau Rhedeg	1,390	1,327	1,327
Gwariant Cyfredol	26,100	25,900	25,946
Derbyniadau Cyfredol	(3,484)	(3,484)	(3,484)
Cyfalaf	**345**	**345**	**345**
Gwariant Cyfalaf	400	400	400
Derbyniadau Cyfalaf	(55)	(55)	(55)
Heb fod yn arian parod	**779**	**779**	**779**
Dibrisiant	779	779	779
CYFANSWM Y CYMORTH GRANT	**25,130**	**24,867**	**24,913**

Mae'r cymorth grant a nodwyd uchod yn cynrychioli'r ddarpariaeth uchaf bosibl ac mae'n seiliedig ar adnoddau. Y swm ar gyfer 2012-13 yw cyfanswm y cymorth grant a gymeradwywyd, a symiau dangosol a geir ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

Mae'r cymorth grant yn parhau i fod yn amodol ar gydymffurfio â chynnwys y Ddogfen Fframwaith. Ni ddylai Costau Rhedeg Chwaraeon Cymru ar gyfer 2012-13 fynd y tu hwnt i £1.390m.

Oddi mewn i'r gyllideb Gwariant Presennol, caiff £3.5m ei ddarparu ar gyfer gweithredu'r cynllun Nofio am Ddim i Bobl 60+ a'r cynllun Nofio am Ddim estynedig ar gyfer plant a phobl ifanc.

CYNLLUNIO

Rwy'n disgwyl gweld y blaenoriaethau polisi yn y llythyr hwn yn cael eu hadlewyrchu yn eich Cynllun Busnes ar gyfer 2012-13. Rwy'n eich annog i drafod drafft cynnar ohono â'ch isadran noddi cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y caiff ei gymeradwyo'n derfynol ym mis Ebrill 2012. Dylai eich Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2011-2016 gael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r dyraniadau cyllideb ynghyd â'r blaenoriaethau polisi o fewn y llythyr hwn a dylech ei gyflwyno i'ch Cangen Noddi erbyn 30 Mehefin 2012.

MONITRO A RHEOLI PERFFORMIAD

Caiff perfformiad Chwaraeon Cymru ei fesur ar sail cynnydd yn erbyn y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad canlynol yn y Rhaglen Lywodraethu:

Dangosyddion Canlyniadau

- % y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu hamdden egnïol
- % yr oedolion sy'n ymwneud â gwirfoddoli mewn chwaraeon (gan gynnwys hyfforddi)

Mesurau Perfformiad Allweddol

- Nifer y sesiynau nofio am ddim a nifer y gweithgareddau dŵr strwythuredig am ddim y mae plant a phobl ifanc 16 oed neu iau, a'r rhai 60 oed a hŷn, wedi cymryd rhan ynddynt.
- Nifer yr oedolion sy'n ymwneud â hyfforddi a gwirfoddoli.

ac yn erbyn y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad cymeradwy yn eich cynlluniau corfforaethol a'ch cynlluniau busnes.

Ar y cyd â'r fframwaith mesur sydd gennych ar gyfer monitro perfformiad y partneriaid yr ydych yn eu hariannu, byddwn yn eich annog i gydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu eich rhaglen ymchwil a'ch rhaglen werthuso er mwyn sicrhau eich bod yn datblygu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y trefniadau ar gyfer monitro cynnydd Chwaraeon Cymru yn unol â'r llythyr cylch gwaith a'ch Cynllun Busnes yn parhau ar ffurf cyfarfodydd chwarterol ar lefel swyddogion a'n cyfarfodydd chwe misol. Hoffwn i chi ddarparu adroddiad ar eich perfformiad yn 2011-12 cyn cyfarfod yr haf ynghyd ag adroddiad ar eich perfformiad hanner ffordd drwy 2012-13 cyn cyfarfod yr hydref.

Huw Lewis AC / AM

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage